

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Gwasanaeth Cyswllt Profedigaeth oherwydd Hunanladdiad
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Lisa Pollard, Iechyd Meddwl Oedolion a Grwpiau Agored i Niwed
Adran:	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth yr Is-adran/SRO (enw):	Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad Dechrau:	Medi 2022

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 7. Casgliad	10
Adran 8. Datganiad	12

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn drafftio cynnig i ymgysylltu ag asiantaeth sydd â phrofiad amlwg o brofedigaeth drwy hunanladdiad, a fydd yn gallu sicrhau ymateb cymunedol cyson ac amserol i bobl sydd wedi eu heffeithio gan farwolaethau sydyn nad oes esboniad iddynt neu sydd o bosibl yn hunanladdiad.

Y nod yw sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad posibl yn cael cynnig rhagweithiol o gefnogaeth, o fewn y 48-72 awr cyntaf wedi'r farwolaeth, a bod y cynnig yn dosturiol, yn ystyriol o drawma, ac yn gydnaws ag anghenion penodol pobl sy'n byw gyda phrofedigaeth oherwydd hunanladdiad (a amheuir neu a gadarnhawyd).

Amcanion

Yr amcanion yw:

- Sicrhau bod ymateb cyson ar gael ledled Cymru i bawb a allai gael eu heffeithio.
- Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ar draws yr holl asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â phobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad posibl, megis clystyrau a thimau gofal sylfaenol, banciau a sefydliadau ariannol, canolfannau cyngor ar bopeth (CAB) a gwasanaethau cynghori eraill, ynghyd â gwasanaethau diwedd oes mewn ysbytai, ac adrannau brys ysbytai.
- Sicrhau bod anghenion y rhai yr effeithir arnynt yn dosturiol ac yn cael eu hasesu'n drwyadl gan swyddog cyswllt profedigaeth (hunanladdiad) sydd â'r cymhwyster a'r profiad priodol, ac y caiff y cynlluniau eu cytuno ar y cyd â'r unigolion yr effeithir arnynt, i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heffeithio yn cael cynnig opsiynau, fel y gallant ddewis y gefnogaeth sydd fwyaf addas iddynt hwy, eu sefyllfa a'u lleoliad.
- Sicrhau bod y rhai sydd wedi eu heffeithio yn teimlo eu bod wedi cael eu cydnabod, bod eu sefyllfa benodol yn cael ei deall, a bod ganddynt rywun i 'gerdded wrth eu hochr' ar eu taith brofedigaeth am ba mor hir bynnag y mae angen y gefnogaeth honno arnynt.
- Nodi'r ardaloedd hynny o Gymru lle mae'r ddarpariaeth i gefnogi pobl mewn profedigaeth drwy hunanladdiad yn wael neu'n annigonol, i lywio penderfyniadau ynghylch rhagor o fuddsoddiad a chynllunio gwasanaethau
- Nodi meysydd lle mae arferion da, dysgu o ddarpariaeth leol safonol sy'n arbennig o ddibynadwy ac ymatebol i anghenion pobl, gyda'r bwriad o ymestyn hyn i ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wannach.

Cefndir

Ar ddechrau 2021, comisiynwyd Opinion Research Services, Abertawe, i gynnal ymarfer gwranddo i geisio barn pobl sy'n byw gyda phrofedigaeth oherwydd hunanladdiad yng

Nghymru. Bwriad y gwaith hwn oedd ategu ac adeiladu ar yr adroddiad 'From Grief to Hope' a gyhoeddwyd gan Brifysgol Manceinion¹. Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cael profedigaeth esbonio'u profiad hwy o brofedigaeth yn dilyn marwolaeth sydyn neu anesboniadwy a allai fod yn hunanladdiad, hyd at y cwest ac wedi hynny. Roedd hyn yn rhoi llwyfan i ddwyn ynghyd yr asiantaethau allweddol y mae pobl yn dod i gysylltiad â hwy (asiantaethau pwynt cyswllt) i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ynghylch sut rydym yn ymateb i bobl sy'n dod i gysylltiad â hunanladdiad, yn cael ei effeithio ganddo neu sy'n dioddef profedigaeth yn ei sgil. Amlygodd y broses o ddatblygu canllawiau yr angen am asiantaeth a allai dderbyn atgyfeiriadau gan yr heddlu, neu gysylltiadau cynnar eraill, ac yna gynnig mynediad at gymorth addas yn rhagweithiol o fewn y 48-72 awr cyntaf yn dilyn y farwolaeth.

Mae cyllid grantiau bach blaenorol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i ddatblygu ymatebion profedigaeth mewn nifer o asiantaethau yng Nghymru ('2 Wish' yng Ngwent, MIND yn Aberystwyth/Sir Benfro/Llanelli, a SOBS yn y Gogledd). Prosiectau lleol oedd y rhain a tharfwyd ar y grwpiau peilot i raddau gan y pandemig COVID. Mae cefnogaeth hefyd yn cael ei chynnig gan gymunedau sy'n ymateb i hunanladdiad lleol, a thrwy ffrydiau ariannu eraill, megis codi arian yn lleol, y Loteri Genedlaethol, neu'r Grant Cymorth Profedigaeth Cenedlaethol, gan gynnwys Sefydliad Jacob Abraham², Sefydliad Jac Lewis³, LISS y De-orllewin (Living in Suicide's Shadow)⁴, Sandy Bear⁵, a gwaith parhaus '2 Wish'⁶. Mae'r cymorth a gynigir gan yr asiantaethau hyn yn werthfawr, ond yn amrywiol, ac felly rydym yn chwilio am ymateb uniongyrchol, dibynadwy a chyfartal y gellir ei gynnig i bobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle rydym yn gwybod nad oes llawer o ddarpariaeth neu ddim o gwbl.

Yn ddiweddar, mae system wyliadwriaeth amser real i olrhain achosion o hunanladdiad posibl, fel y maent yn digwydd, wedi cael ei lansio, drwy bartneriaeth rhwng y pedwar heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru. Bydd y data sydd ar gael yn golygu bod modd atgyfeirio pobl yn gyflym at wasanaethau cymorth, a bydd yn llywio gwaith y grwpiau ymateb uniongyrchol neu gyflym (ee grwpiau cyfeirio

¹ [From-Grief-to-Hope-Report.pdf \(suicidebereavementuk.com\)](#)

² [Cymorth Iechyd Meddwl Caerdydd | Sefydliad Jacob Abraham \(jacobsfoundation.org.uk\)](#)

³ [Sefydliad Jac Lewis](#)

⁴ [Grŵp cymorth gan gymheiriaid | LiSS Living in Suicide's Shadow | Cymru \(lisslistens.org\)](#)

⁵ [Sandy Bear - Elusen Profedigaeth Plant](#)

⁶ <https://www.2wish.org.uk/?lang=cy>

annibynnol) sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru. Bydd y grwpiau hyn yn cydlynu'r ymateb cymunedol i farwolaethau lle'r amheuir hunanladdiad.

Cysylltiadau â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru. Y weledigaeth yr anelir ati yw cael Cymru dosturiol lle bydd gan bawb fynediad teg at ofal a chymorth profedigaeth o ansawdd da, fel y gellir diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r fframwaith yn pennu'r safon, ac mae'n gweithredu fel sbardun i ysgogi gwelliannau yn ansawdd, darpariaeth ac argaeledd cymorth profedigaeth ledled Cymru. Bydd y gwasanaeth cyswllt newydd a fydd yn ymateb i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad, sydd wedi dod i gysylltiad ag ef neu sydd wedi'u heffeithio ganddo, yn helpu i gyflawni fframwaith cenedlaethol 2021 ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth.

COVID-19

Er bod y data diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod marwolaethau drwy hunanladdiad wedi gostwng yn ystod y pandemig, gallai'r ffactorau risg ar gyfer hunanladdiad gael eu gwaethygu gan yr effeithiau ehangach. Mae hyn yn cynnwys ansicrwydd, effeithiau ariannol a diweithdra. Er mai ymagwedd ataliol sydd gennym o ran hunanladdiad, mae hi hyd yn oed yn bwysicach i bob gwasanaeth ddeall yn well sut y gallant wella eu hymateb i brofedigaeth drwy hunanladdiad, yng nghyd-destun effeithiau economaidd-gymdeithasol y pandemig.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill feddwl am effeithiau'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud heddiw, er lles yfory. Mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy (a'u ffocws ar atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys a'r tymor hir) yn sail i amcanion y gwasanaeth cyswllt newydd ac maent yn sylfaenol i ddatblygu ymateb cydlynol, holistig a hirdymor i ofal ar gyfer profedigaeth oherwydd hunanladdiad yng Nghymru.

ATAL

Mae dolen uniongyrchol rhwng y gwasanaeth cyswllt a Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru 'Siarad â Fi 2', sy'n canolbwyntio'n benodol ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Yn ogystal, mae Strategaeth Cyflawni Law yn Llaw at lechyd Meddwl Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar fel bod niwed mwy hirdymor yn cael ei atal cyn iddo ddigwydd. Nod y gwasanaeth cyswllt yw

canolbwyntio ar sicrhau bod pobl sy'n cael profedigaeth drwy hunanladdiad yn cael mynediad amserol a theg at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt pan fo'u hangen arnynt fwyaf. Mae'r gwasanaeth cyswllt yn cydnabod pwysigrwydd rhwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol a'r ffactorau sy'n cadw pobl yn iach. Mae'r gwasanaeth cyswllt yn un elfen o ddull llawer ehangach o atal hunanladdiad a hunan-niweidio sy'n cynnwys gwaith mewn ysgolion, ehangu cefnogaeth haen 0 (er enghraifft [Silvercloud](#) / [Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL](#) i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn gosod disgwyliad y bydd dull gweithredu eang o ran atal yn cael ei ddefnyddio ym mhob agwedd ar gynllunio. Cefnogir hyn gan bolisi Llywodraeth Cymru sy'n cael ei bennu o safbwynt atal, boed hynny yn y maes iechyd cyhoeddus traddodiadol neu ym maes gofal heb ei drefnu neu ofal wedi'i gynllunio.

Yn y pen draw, bydd dulliau ataliol o ran pob math o her iechyd corfforol a meddylio, l a chefnogaeth i lesiant, yn atal cyflyrau a salwch rhag dwysáu. Rhaid ystyried cyfleoedd buddsoddi a fydd yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol ac yn llywio darpariaeth gwasanaethau'r dyfodol.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol i symud oddi wrth drin tuag at atal. Y weledigaeth yr ydym wedi'i sefydlu yn Cymru lachach yw rhoi mwy o ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.

INTEGREIDDIO

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG, sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfarwyddyd y Gweinidog i'r GIG, bob amser yn ceisio cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac i barhau i gryfhau'r ffordd mae sefydliadau'n gweithio i gyflawni eu cynlluniau gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio.

Ers dechrau'r pandemig COVID-19, mae ffocws cryf hefyd wedi bod ar osgoi'r niweidiau sydd wedi bod yn gyd-destun anawdd allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau a gofal.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Edrych tua'r Dyfodol ⁷ er mwyn helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddod allan o'r pandemig. Ynndo, nodir mai'r her yw creu'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig y dymunwn ei gael wrth symud i'r dyfodol, a delio ag effeithiau hirdymor COVID-19. Newid er gwell yw'r nod, gan gydnabod bod COVID-19 gyda ni o hyd.

Agwedd allweddol ar yr adferiad hwn yw sicrhau bod gofal mor ddiogel â phosibl, a bod unrhyw niwed yn cael ei leihau. Y pedwar niwed a ddisgrifiwn mewn perthynas ag iechyd a gofal yng Nghymru yw:

⁷ [Edrych tua'r Dyfodol](#)

1. Niwed yn sgil COVID-19 ei hun;
2. Niwed anuniongyrchol yn sgil COVID-19 oherwydd system iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i llethu a lleihau gweithgarwch gofal iechyd o ganlyniad;
3. Niwed o fesurau diogelu iechyd yn y boblogaeth, h.y. niwed addysgol;
4. Niwed economaidd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i COVID-19, h.y. diweithdra o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud;
5. Niwed o ganlyniad i waethygu anghydraddoldebau neu gyflwyno rhai newydd mewn cymdeithas.

Mae'r canllawiau wedi'u hintegreiddio â datblygiadau polisi ehangach, gyda'i nodau'n rhan annatod o gyflawni *Ffyniant i Gymru Bawb* a *Cymru Iachach*. Mae'r canllawiau'n rhai amlasiantaethol a'u nod yw gwella mynediad at gymorth lle rydym yn gwybod bod bylchau cyfredol yn y ddarpariaeth. Ar ei lefel fwyaf strategol, nod *Cymru Iachach* yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i'r dyfodol. Mae'n nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, y sectorau gofal gwirfoddol ac annibynnol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach i sicrhau'r trawsnewidiad gofynnol ledled Cymru i sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy, seiliedig ar werth, o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion yn awr ac yn y dyfodol. Un o'r pedair thema allweddol yn *Ffyniant i Bawb* yw 'Iach ac Egniol', a nod Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd a llesiant dinasyddion Cymru. Mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i gyflawni'r amcan cyffredinol hwn, ac mae *Cymru Iachach* yn nodi'r ffyrdd yr ydym yn disgwyl iddynt ei gefnogi, drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal effeithiol a chynaliadwy, a thrwy ei gwneud yn ofynnol iddynt roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar gyda'r nod o hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

CYDWEITHREDU/CYNNWYS

Nodwyd yr angen am wasanaeth cyswllt profedigaeth hunanladdiad drwy waith a wnaed ar ddatblygu'r canllawiau drafft 'Ymateb i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad, sydd wedi dod i gysylltiad ag ef, neu sydd wedi'u heffeithio ganddo'. Roedd hyn yn cynnwys yr ymarfer gwrando y cyfeirir ato yn y cyflwyniad i'r Asesiad Effaith hwn a oedd yn cynnwys mewnwelediadau gan bobl sy'n byw gyda phrofedigaeth oherwydd hunanladdiad yng Nghymru.

Datblygwyd y canllawiau gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Amlasiantaeth Cenedlaethol, ac maent wedi elwa ar gyfraniad amhrisiadwy pobl sy'n byw gyda phrofedigaeth oherwydd hunanladdiad yng Nghymru a'r asiantaethau sydd wedi eu cefnogi. Mae'r asiantaethau sy'n ymwneud â datblygu'r canllawiau yn cynnwys:

Uned Gyswllt yr Heddlu, Llywodraeth Cymru

Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Seiciatrydd Plant Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Chynghorydd Llywodraeth Cymru ar Iechyd Meddwl Plant

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Compassionate Cymru

Cymorth mewn Galar CRUSE, Cymru

PAPYRUS – Atal Hunanladdiad mewn Pobl Ifanc

Samariaid Cymru

Sefydliad Jacob Abraham

MIND Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Swyddfa Crwner Canol De Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cymdeithas Genedlaethol Cyfarwyddwyr Angladdau Cysylltiol ac Annibynnol

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Straen Trawmatig Cymru

Prifysgol Abertawe

Partneriaeth Cymorth wedi Hunanladdiad

To Wish, Gwent

Enfys Alice, Gogledd Cymru

LISS (Living in Suicide's Shadow), Gorllewin Cymru

SOBS (Survivors of Bereavement by Suicide)

#LetsTalkMensMentalHealth, y Cymoedd

MIND (Aberystwyth, Sir Benfro, Llanelli)

Sefydliad DPJ

EFFAITH – TYMOR HIR

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o ganlyniadau lefel uchel gyda'r amcan o sicrhau gwelliant sylweddol yn ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl i bob oed. Wrth wneud hynny, rhagwelir y bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau cydraddoldeb (o ran iechyd meddwl ac

iechyd corfforol a mynediad at ofal) - a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffocws ar greu Cymru iachach, fwy cyfartal a mwy cydnerth.

Gall profedigaeth oherwydd hunanladdiad fod yn ffactor risg ar gyfer hunanladdiad a phroblemau iechyd meddwl. Nod y gwasanaeth cyswllt yw gwella'r ymateb a'r gefnogaeth yn dilyn hunanladdiad fel elfen allweddol o atal hunanladdiad.

COSTAU AC ABEDION

Mae Llywodraeth Cymru yn darpau £330k i ddarparu cymorth ychwanegol drwy gyfrwng y gwasanaeth cyswllt profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cyswllt, sy'n rhoi argymhellion i ystod o asiantaethau i'w helpu i nodi meysydd lle gallant newid polisiâu/prosesau i wella'r daith i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Gallai rhoi'r cymorth priodol yn gynharach greu arbedion yn y tymor hirach, o bosibl, yn sgil lleihad yn niferoedd y bobl â phroblemau mwy cymhleth oherwydd profedigaeth sy'n gofyn am wasanaethau. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad yn gymharol isel, felly mae unrhyw arbedion costau yn debygol o fod yn gymharol fach.

MECANWAITH

Nid oes deddfwriaeth yn cael ei chynnig ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Reoleiddiol.

DOGFENNAU POLISI ALLWEDDOL

[Siarad â fi 2 – strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed 2015-2022](#)

[Busnes Pawb: adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Rhagfyr 2018](#)

[Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022](#)

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Datblygwyd y Gwasanaeth Cyswllt â Phrofedigaeth oherwydd Hunanladdiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol, ac mae wedi elwa ar gyfraniad amhrisiadwy pobl sy'n byw gyda phrofedigaeth oherwydd hunanladdiad yng Nghymru a'r asiantaethau sydd wedi eu cefnogi.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Effeithiau cadarnhaol y gwasanaeth cyswllt fydd bod pobl yn cael mynediad teg at wasanaethau profedigaeth oherwydd hunanladdiad ac y bydd asiantaethau pwynt cyswllt yn gwella eu hymateb i brofedigaeth oherwydd hunanladdiad. Mae £300k ychwanegol wedi'i ddarparu i gomisiynu'r Gwasanaethau Cyswllt Profedigaeth oherwydd Hunanladdiad a ddisgrifir yn y canllawiau drafft 'Ymateb i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad, sydd wedi dod i gysylltiad ag ef, neu sydd wedi'u heffeithio ganddo' i sicrhau bod pobl yn cael cynnig cymorth ac yn cael eu cysylltu â chefnogaeth briodol mewn modd amserol i ymateb i'w hanghenion.

7.2 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd y gwasanaeth cyswllt yn helpu i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nod llesiant ar gyfer Cymru iachach trwy liniaru lefelau niwed yn sgil profedigaeth oherwydd hunanladdiad i bobl Cymru. Bydd hefyd yn helpu i hyrwyddo cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Ar ôl i'r Gwasanaeth Cyswllt Profedigaeth oherwydd Hunanladdiad gael ei gomisiynu, bydd y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Yn ogystal, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth a gynullwyd i ddatblygu'r canllawiau yn cefnogi'r gwaith o'i weithredu a bydd yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd ar draws sefydliadau. Bydd y cynnydd o ran gweithredu'r canllawiau hefyd yn cael ei fonitro trwy

waith y Bwrdd Cyflawni ac Goruchwylio Iechyd Meddwl dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed, sy'n cynnwys ffrwd waith benodol ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi yn ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr

Adran: Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed

Dyddiad: Medi 2022